amgueddfa cymru
national museum wales



# Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru



## Gwybodaeth gefndir

Saif Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru ar gyrion pellaf yr Ymerodraeth Rufeinig.

Yn 75 OC, adeiladodd y Rhufeiniaid gaer yng Nghaerllion a bu'n gwarchod yr ardal am dros 200 o flynyddoedd. Mae Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yn sefyll yng nghanol olion y gaer Rufeinig hynafol hon.

Dim ond tair caer barhaol a godwyd gan y Rhufeiniaid ym Mhrydain, a Chaerllion oedd un ohonynt. Roedd dros 5,000 o filwyr yn byw mewn barics yno. Mae olion y barics i'w gweld heddiw, ynghyd ag amffitheatr a baddondai Rhufeinig.

Codwyd yr amgueddfa wreiddiol yma ym 1850, felly mae'n un o amgueddfeydd hynaf Prydain. Yng Nghaerllion heddiw, cewch ddysgu pam oedd byddin y Rhufeiniaid gymaint i'w hofni, a sut y gwnaethant newid ein bywydau.

## Beth welwn ni yno?

Mae Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yn adrodd stori'r Rhufeiniaid yn goresgyn ac yn meddiannu de-ddwyrain Cymru. Yn yr orielau, cewch gipolwg ar fywyd bob dydd milwyr Caerllion a thrigolion eraill yr ardal.

Mae'r orielau'n llawn eitemau sy'n dangos sut oedd pobl yn byw, yn ymladd, yn addoli ac yn marw tua 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Yn ogystal â'r orielau, mae Gardd Rufeinig hardd yr Amgueddfa'n wledd i'r synhwyrau.

Mae ystafell farics maint lawn yn rhoi cyfle i ymwelwyr gael blas ar fywyd milwr trwy wisgo arfwisg.

Yn ogystal â'r Amgueddfa, mae nifer o safleoedd gan Cadw yng Nghaerllion, gan gynnwys amffitheatr, baddondai Rhufeinig a'r unig farics Rhufeinig yn Ewrop sydd ar agor i'r cyhoedd.

## Pa stori ydym ni'n ei hadrodd?

Mae Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru'n adrodd stori'r Rhufeiniaid yn goresgyn ac yn meddiannu de-ddwyrain Cymru, a bywyd bob dydd trigolion yr ardal.









**Bywyd bob dydd:**

Mae'r eitemau sydd i'w gweld yn yr orielau'n rhoi cipolwg i ni ar fywyd yn y cyfnod pan oedd y Rhufeiniaid yn meddiannu'r ardal. Mae pethau fel padelli ffrio a llestri gwin yn rhoi syniad i ni o'r math o fwyd a diod yr oedd y bobl yn eu mwynhau. Roedd gwin, olew olewydd a saws pysgod yn cael eu mewnforio o bob rhan o'r Ymerodraeth Rufeinig i Gaerllion.

Mae pethau fel pecynnau glanhau a dis yn rhoi golwg i ni ar fywyd y Rhufeiniaid. Roedd Baddondai Rhufeinig yn lle poblogaidd iawn, nid dim ond i ymolchi, ond i chwarae gemau gyda ffrindiau.

**Bywyd milwrol:**

Bu milwyr Rhufeinig yn byw yng Nghaerllion am bron i 200 o flynyddoedd, rhwng 75 OC a 287 OC. Ar ei anterth, roedd 5,000 o filwyr yn byw yn y barics yng Nghaerllion.

Dewch i weld y modelau maint llawn o filwyr Rhufeinig, gyda'u harfwisgoedd a'u harfau. Mae rhai enghreifftiau o'u harfau i'w gweld yn y casys arddangos yn yr orielau. Mae'r rhain yn cynnwys cetilau neu bigogyrau, sef arf a ddefnyddid i drywanu traed y gelyn a'u ceffylau wrth iddynt agosáu.

Roedd arfau ac arfwisgoedd yn bwysig iawn i'r fyddin Rufeinig. Heb eu harfwisgoedd a'u harfau effeithiol, ni fyddent wedi llwyddo cystal i greu'r Ymerodraeth Rufeinig.

Mae ystafell farics maint lawn wedi'i hail-greu i roi blas ar fywyd milwr Rhufeinig yng Nghaerllion.





**Crefydd a Chladdu:**

Roedd crefydd y Rhufeiniaid yn wahanol iawn i lawer o'r crefyddau sydd gan bobl heddiw. Roedd y Rhufeiniaid yn addoli llawer o dduwiau ac yn disgwyl iddynt eu gwarchod. Yn yr Amgueddfa, cewch weld allorfaen i'r dduwies Rufeinig Salus, duwies iechyd, ond roedd ganddynt dduwiau rhyfel, cariad, cyfoeth a llawer mwy.

Roedd Rhufeiniaid a fu farw yng Nghaerllion yn cael eu claddu tu allan i'r gaer. Roedd rhai'n cael eu claddu gydag eitemau yn yr arch, yn y gred y byddent yn mynd â nhw i'r byd nesaf gyda nhw. Yn yr Amgueddfa, fe welwch arch yn cynnwys sgerbwd dyn o'r ail ganrif neu ddechrau'r drydedd.

**Yr Ardd:**



Mae Gardd Rufeinig yn yr Amgueddfa. Roedd y Rhufeiniaid yn plannu ffrwythau, llysiau a pherlysiau i'w bwyta a'u defnyddio fel meddyginiaethau. Roedd llawer o blanhigion yn cael eu defnyddio at ddibenion crefyddol hefyd.

Roedd y Rhufeiniaid ymhlith y bobl gyntaf i ddefnyddio gerddi at ddibenion addurnol, at ddibenion ymlacio a mwynhau eu hunain. Mae'r Ardd Rufeinig yng Nghaerllion yn cynnwys tricliniwm – lle i fwyta yn yr awyr agored.

**Safleoedd Cadw:**

Fyddai ymweliad â Chaerllion ddim yn gyflawn heb weld rhai o'r olion Rhufeinig eraill yn y pentref. Mae'r rhain yn cynnwys yr amffitheatr Rufeinig fwyaf cyflawn ym Mhrydain, olion yr unig farics Rhufeinig yn Ewrop sydd ar agor i'r cyhoedd a'r baddondai Rhufeinig.

Am ragor o wybodaeth, ewch i
**www.amgueddfacymru.ac.uk/rufeinig/addysg**



